FfEDERASIWN CLYBIAU FfERMWYR IFANC CYMRU

PWYLLGOR MATERION GWLEDIG
DYDD IAU , 23ain MEDI 2021
'CYFARFOD HYBRID' 7.30yh

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Clare James **IS GADEIRYDD:** Mr William Jones

RA/01/2022 **CROESO A CHYFLWYNIADAU'R CADEIRYDD**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod hybrid o is bwyllgor Materion Gwledig.

RA/02/2022 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Elin Haf Williams (Maldwyn), Sioned Davies (Brycheiniog), Non Williams (Ynys Môn), Ifan Davies (Clwyd), Iolo Evans (Meirionnydd), Rhodri Griffiths (Ceredigion), Katie Davies (Cyn Gadeirydd CFfI Cymru), Meinir Tomos

RA/03/2022 **AMODAU GORCHWYL Y PWYLLGOR**
Cafodd amodau gorchwyl eu diweddaru yn CCB 2020 i gynnwys y byddai'r pwyllgor yn gweithio gyda undebau ffermio, yn datgan:

"Mae'r pwyllgor i'w annogi i weithio gyda amryw o grwpiau lobïo ond fodd bynnag ni ddylir hyrwyddo'n uniongyrchol na tybio i ffafrio."

RA/04/2022 **I GADARNHAU COFNODION Y PWYLLGOR DIWETHAF**
Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cylchredeg a'u cytuno i fod yn record gwir a chywir.

Cynigydd : Angharad Thomas
Eilydd : Gemma Price

RA/05/2022 **I WYNEBU PROTOCOLAU COVID-19 DROS Y FLWYDDYN NESAF**
Yr awgrymiad gan y Cyngor yw fod y pwyllgor yn cael 3 cyfarfod 'mewn person' (fel yn y gorffennol), gyda unrhyw gyfarfodydd ychwanegol (os yn eisiau) i'w rhedeg drwy Zoom. Cytunodd y pwyllgor ar y cynnig hwn.

RA/06/2022 **PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION**
Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

RA/07/2022 **GOHEBIAETH**
Nid oedd unrhyw ohebiaeth**.**

RA/08/2022 DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU MATERION GWLEDIG

Diweddariad diwydiant
Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad byr ar y diwydiant. Cafwyd hysbysiad i'r cynllun BPS am 2022/23 gyda cyfeireb i gynllun Glastir yn cael ei ymestyn. 'Roedd ffenestr Grant Busnes Ffermio wedi agor. Trafodwyd y mater o brinder CO_2 a'r effaith ar ddiwydiant moch a dofednod. 'Roedd stradegaeth 'coeden iawn, lle iawn' wedi cael ei lansio. Nodwyd hefyd fod cig oen y DU yn ôl ac ar gael yn UDA.

1. Cynllun Ŵyn
   Nododd y Cadeirydd fod yna nifer o gyfarfodydd wedi bod dros y flwyddyn gyda Dunbia a Helen Evans (Swyddog Materion Gwledig dros dro) yn gweithio gyda Dunbia i ddiweddaru hyrwyddiad. Mae arolwg wedi cael ei gynllunio rhwng CFfI Cymru a Dunbia a gofynnwyd i'r siroedd helpu i ddosbarthu'r arolwg.

   Yn ystod 2020-21, cafodd 12,393 o ŵyn eu lladd fel rhan o'r cynllun.

2. Bwrsariaeth Amaethyddol
   Nodwyd fod y swyddfa yn dal i aros am ddiweddariad ynglyn a dyfodol y Bwrsariad.

3. Menter Moch Cymru
   Cyhoeddwyd fod 6 aelod wedi cael eu dewis fel rhan o gynllun pesgi moch CFfI Cymru a Menter Moch Cymru 2021:

   Dylan Phillips - Ceredigion
   Eiry Williams - Ceredigion
   Laura Evans - Ceredigion
   Luned Jones – Sir Gâr
   Sally Griffiths - Maesyfed
   Elliw Roberts - Ynys Môn

   Nodwyd eleni y byddai dau ddosbarth i'r terfynwyr yn y Ffair Aeaf – dosbarthau unigol a pharau.

RA/09/2022 I WNEUD TREFNIADAU AT DDIGWYDDIADAU I DDOD

1. Cyfarfod gyda Cadeirydd Hybu Cig Cymru, Catherine Hughes
Cytunwyd y byddai'r cyfarfod yma'n rhithiol.

2.Cynhadledd Materion Gwledig 2022
Cytunodd y pwyllgor y dylai'r gynhadledd, os yn bosibl, gael ei chynnal '*mewn person'* a dychwelyd yn ôl i'r ail ddydd Sadwrn yn Ionawr. Nodwyd y byddai'r gynhadledd yn cymryd lle yn y Gogledd. Fe gaiff lleoliad ei gadarnhau yn dilyn trafodaeth gyda noddwyr y digwyddiad CCF. Awgrymwyd Llysfasi, Glynllifon neu gyda cwmni busnes. Awgrymwyd cael John Scott, ffermwr defaid o'r Alban a Ed Towers, ffermwr llaeth o Sir Gaerhirfryn fel siaradwyr. Fodd bynnag cytunwyd fe fyddai rhagor o drafodaethau ar ôl cadarnhad gan CCF.

3.Ffair Aeaf y Sioe Frenhinol 2021
Cafodd ei amlinelli y byddai'r cystadlaethau canlynol yn cael eu cynnal yn ystod y Ffair Aeaf:
Menter Moch (dosbarth unigol a pharau)
Dosbarthau Menter Ŵyn (byw a charcas)
Biff ifanc

Gofynwyd am gystadleuaeth beiciau cwad.

Nodwyd y byddai eisiau hybysebu pellach yn gynarach yn y flwyddyn i gystadlaethau stoc yn y dyfodol.

Cafodd y posibilrwydd o siaradwr/cyfarfod gyda cynrychiolydd o Llywodraeth Cymru hefyd ei godi.
The possibility of a speaker/meeting with a Welsh Government representative was also quired.

4Taith Astudio Materion Gwledig

Mae FUW wedi cynnig helpu gyda trefnu'r daith. Cytunodd y pwyllgor y byddai'r daith ddim ond ymweliad am un diwrnod elenin, o achos Covid, yn Aberystwyth ar 9fed o Hydref.

5Agri I

Penderfynwyd i ddilyn fel a drefnwyd gyda rhaglen Agri I ac iddo ddechrau flwyddyn yn hwyrach na'r cynllun.

6 Dŵr Cymru

'Roedd Dwr Cymru wedi bod mewn cysylltiad gyda'r swyddfa yn nodi eu bod yn awyddus i weithio gyda'r pwyllgor. Maent yn dymuno noddi bwrsariaeth neu brosiect i wella ansawdd dŵr ar y fferm. Cytunwyd gan y pwyllgor i groesawu siaradwr i'r cyfarfod nesaf i roi cyflwyniad byr ar beth yw eu syniadau i'r prosiect.

7 Diwrnod Gwaith Maes CFfI Cymru

I'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

RA/10/2022 YMGYNGHORIAETH AMAETHYDDOL LLYWODRAETH CYMRU

'Roedd 4 wedi cael eu cwblhau yn y flwyddyn ddiwethaf. Cafodd ei uchelbwyntio y byddai ymgynghoriaeth arall yn 2023 cyn lansio 'Ein Tir' yn 2025.

RA/11/2022 LLES AELODAU

Dim i'w drafod.

RA/12/2022 ETHOL ARBENIGWYR PWYLLGOR

(Mwyafrif o chwech person i roi cyngor i'r pwyllgor fel a phryd fydd eisiau). Mae Hedd Pugh (NFU) ac Anwen Hughes (FUW) i'w ail-ethol i'r pwyllgor.

RA/13/2022 ITEMAU AGENDA & DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Y cyfarfod nesaf fydd yr ymweliad ar ddydd Sadwrn, 9 Hydref yn Aberystwyth. Lleoliad i'w gadarnhau.

RA/14/2022 ETHOLIAD SWYDDOGION PWYLLGOR

Cyn ethol swyddogion newydd y pwyllgor, diolchodd Clare James am yr holl gefnogaeth ac amlinellodd y ganlyniadau a llwyddiant y flwyddyn.

1. Cadeirydd – William Jones, Meirionydd
2. Is-Gadeirydd – Dewi Jones, Ceredigion
3. Ysgrifennydd Cofnodion – Angharad Thomas, Sir Gâr

RA/15/2022 UNRHYW FUSNES ARALL

Diolchodd William Jones bawb a datgan y cyfarfod ar gau.